



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**  
**RHONDDA CYNON TAF**  
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor, Cwm  
Clydach, CF40 2XX

Dydd Mawrth, 18fed Mehefin, 2019 am 10.30 am

Dolen gyswllt: Emma Wilkins - Blaen Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol  
(Rhif ffôn. 01443 424110)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Gwener, 14 Mehefin 2019. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.

Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i [UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk](mailto:UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk)

**MATERION I'W TRAFOD**

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 8 Mai 2019 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 5 - 12)**

**3. CYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD**

Derbyn [Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd](#) ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2019-20, yn dilyn y diwygiadau a gafodd eu hadrodd yn 24ain Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor.

**4. RHAGLEN WAITH Y CABINET 2019-20**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Materion Cyfathrebu, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y rhestr arfaethedig o faterion y mae angen i'r Cabinet eu hystyried yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2019–20.

**(Tudalennau 13 - 42)**

**5. GWASANAETHAU'R RHENG FLAEN - CYNLLUNIAU GWELLA PRIFFYRDD**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y cynnydd a wnaed o ran y Cynllun Gwella Priffyrdd a'r camau sydd i ddod.

**(Tudalennau 43 - 52)**

**6. CYNIGION AM GYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL AR GYFER PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, sy'n argymhell y dylai Cyngor Rhondda Cynon Taf wneud y trefniadau angenrheidiol a rhoi'r caniatâd priodol fel bod modd llunio Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

**(Tudalennau 53 - 104)**

**7. CYNIGION I GYNNAL ADOLYGIAD FFURFIOL O GYNLLUN DATBLYGU LLEOL Y CYNGOR**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, sy'n rhoi gwybodaeth i'r Cabinet am yr angen i adolygu Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf a cheisio cymeradwyaeth y swyddogion i frwr ymlaen â'r gwaith o baratoi Adroddiad Adolygu a Chytundeb Darparu ffurfiol. Bydd y rhain wedyn yn cael eu hargymhell i'r Cyngor er mwyn eu cymeradwyo.

**(Tudalennau 105 - 114)**

**8. YMATEB Y CYNGOR I NET ZERO - Y PWYLLGOR AR NEWID HINSAWDD**

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr sy'n rhoi gwybod i'r Aelodau am ymateb y Cyngor i Adroddiad y Pwyllgor 'Climate Change - Net Zero'.

**(Tudalennau 115 - 128)**

**9. STRATEGAETH TOILEDAU LLEOL AR GYFER RHONDDA CYNON TAF**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned, er mwyn cymeradwyo a chyhoeddi Strategaeth Toileddau Lleol Rhondda Cynon Taf 2019.

**(Tudalennau 129 - 264)**

**10. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD**

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.”

**11. CYNIGION AR GYFER TROSGLWYDDO ASED CYMUNEDOL - CANOLFAN GELF Y MIWNI, PONTYPRIDD**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned, sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig, er mwyn cyflwyno crynodeb ac asesiad i'r Cabinet o'r holl gynigion busnes sydd wedi'u derbyn mewn perthynas â'r gwaith arfaethedig o drosglwyddo ased cymunedol Canolfan Gelf y Miwni.

**(Tudalennau 265 - 282)**

**12. CYNLLUN DATBLYGU GOFAL YCHWANEGOL**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig ac sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf am y cynnydd a wnaed o dan gynlluniau gofal ychwanegol y Cyngor.

**(Tudalennau 283 - 290)**

**13. MATERION BRYG**

Trafod unrhyw faterion bryg y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



**Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)  
Y Cynghorydd R Bevan  
Y Cynghorydd A Crimmings  
Y Cynghorydd G Hopkins  
Y Cynghorydd M Norris  
Y Cynghorydd J Rosser  
Y Cynghorydd R Lewis  
Y Cynghorydd C Leyshon

**Swyddogion:** Chris Bradshaw, Prif Weithredwr  
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu  
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant  
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen  
Paul Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.  
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol  
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu  
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol  
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol  
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant